Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

National Assembly for Wales
Health, Social Care and Sport Committee

Vaughan Gething AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

21 Mawrth 2018

Annwyl Vaughan

Caffael Contract Fframwaith Gwasanaethau GMC

Ysgrifennaf atoch parthed eich llythyrau dyddiedig 27 Chwefror 2018 at bob Aelod Cynulliad ynghylch y broses gaffael ar gyfer systemau meddygon teulu yng Nghymru, a 15 Mawrth 2018 mewn ymateb i fy ngohebiaeth ar y mater hwn.

Fel y gwyddoch, yn sgil y cyhoeddiad ar 29 Ionawr 2018 ynghylch canlyniad y broses i gaffael contract ar gyfer Fframwaith Systemau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, mae Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru (y Coleg Brenhinol) a meddygon teulu unigol wedi mynegi eu pryderon wrth y Pwyllgor Iechyd, Gwasanaeth Cymdeithasol a Chwaraeon am na lwyddodd EMIS Health Ltd (EMIS) yn ei gais i barhau i ddarparu gwasanaethau system ar gyfer meddygon teulu yng Nghymru.

Ar 7 Mawrth 2018, cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr y Coleg Brenhinol a Phwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru (PYCC) ar y mater hwn, er mwyn trafod y rhesymeg dros ddyfarnu'r contract ac i glywed mwy am bryderon meddygon teulu.

<u>Y broses gaffael</u>

Ein dealltwriaeth ni yw bod manyleb y contract a luniwyd gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru fel rhan o'r broses dendro yn seiliedig i raddau helaeth ar y

contract presennol a gyflawnir gan EMIS a Vision Health Ltd. Yn ein sesiwn dystiolaeth, amlinellodd Dr Charlotte Jones, Cadeirydd PYCC, y broses gaffael i'r Pwyllgor. Dywedodd wrthym am i bob un o'r tri chyflenwr a wnaeth gais am y contract gael adborth ar ôl cam cyntaf y broses dendro, lle y nodwyd yn eglur y gofynion sylfaenol yr oedd angen eu bodloni er mwyn i'r contract gael ei ddyfarnu. Ar ôl y gwahoddiad i gyflwyno tendrau ffurfiol, daeth yn amlwg bod EMIS wedi dewis peidio â bodloni rhai o'r gofynion sylfaenol.

Eglurodd Dr Jones i'r Pwyllgor y pryderon sylweddol am y cais a gyflwynwyd gan EMIS, ac fe nodir y rhain hefyd yn y llythyr ar y cyd gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, PYCC a'r Bwrdd Rhaglen, a ddarparwyd ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn eich gohebiaeth ar y mater hwn. Nodwyd y prif destunau pryder fel a ganlyn:

- Ni fyddai EMIS Health Cyf yn ymrwymo i'r lefelau gwasanaeth gofynnol a datrys problemau'r system
- Roedd EMIS Health Ltd yn cadw'r hawl i godi tâl ychwanegol a gohirio nifer o ofynion swyddogaethol craidd
- Roedd EMIS Health Ltd yn cadw'r hawl i wrthod ceisiadau am unrhyw newidiadau yn y system yn y dyfodol
- Gosododd EMIS Health Ltd gyfyngiadau ar allu GIG Cymru i reoli'r cyflenwr er mwyn sicrhau'r argaeledd a'r perfformiad angenrheidiol.

Fe'n hysbyswyd bod gan EMIS gyfle i herio'r penderfyniad hwn fel rhan o'r broses gaffael, yn ystod y cyfnod ailfeddwl o 10 niwrnod ar ôl i'r cyflenwyr gael eu hysbysu. Fodd bynnag, ni wnaeth EMIS unrhyw sylwadau; cysylltodd â phractisau meddygon teulu a dweud wrthynt ei fod yn gresynu wrth y penderfyniad ond y byddai'n parhau i ddarparu cymorth meddalwedd hyd nes y byddo'r gwaith mudo ar ben.

Rydym yn dod i'r casgliad, felly, mai penderfyniad masnachol llwyr ar ran EMIS oedd peidio â bodloni'r gofynion yng Nghymru, ac rydym yn cytuno â barn Dr

Jones nad problem gyda'r manylebau a bennwyd ydyw, na'r Bwrdd a oedd â'r penderfyniad terfynol.

Gofid inni hefyd yw bod unigolion yn cael eu beirniadu oherwydd y penderfyniad i beidio â dyfarnu'r contract i EMIS, sef y darparwr presennol i nifer o feddygon teulu yng Nghymru. Rydym yn deall bod cyfyngiadau cyfreithiol yn y broses wedi effeithio ar y gallu i gyfathrebu â meddygon teulu yn ystod y cyfnod segur o 10 niwrnod, ac y bydd hyn, yn ddiau, wedi cyfrannu at y teimladau cryf am y mater hwn.

Yr effaith ar feddygon teulu

Clywsom gan Dr Rebecca Payne, Cadeirydd Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru, am yr effaith bosibl ar bractisau meddygon teulu. Byddwch yn ymwybodol o'r pryderon penodol hyn, a amlinellir yn y llythyr atoch gan Dr Payne ar y mater hwn, gan gynnwys rhoi cymorth ariannol i bractisau, cymorth staffio, hyfforddiant staff cynhwysfawr, a phennu amserlen ymarferol ar gyfer y gwaith mudo.

Rydym yn cydnabod yr her sylweddol sydd bellach yn wynebu meddygon teulu o ran newid darparwr ac yn cydnabod barn y Coleg Brenhinol y dylid rhoi i bractisau, fel blaenoriaeth, y cymorth angenrheidiol i sicrhau yr amherir cyn lleied â phosibl ar ofal cleifion. Yn ei thystiolaeth i ni, cawsom sicrwydd gan Dr Jones y bydd pecyn cynhwysfawr o gymorth ariannol, cytundebol a gweinyddol ar gael i bractisau cyn y gwaith mudo, yn ystod y gwaith hwnnw ac ar ôl hynny. Rydym yn ymwybodol o'r anawsterau a gododd wrth i bractisau fudo i system EMIS ychydig flynyddoedd yn ôl, felly rydym am sicrhau bod digon o gymorth ar waith i osgoi'r un sefyllfa eto. Felly, dyma ofyn i chi roi manylion pellach i'r Pwyllgor am y pecyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i hwyluso'r newidiadau hyn.

Byddwch yn ymwybodol bod Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid wedi cael ei sefydlu i helpu i ddatblygu'r pecyn cymorth. Gofynnaf i chi hefyd roi diweddariadau rheolaidd i ni wrth i'r broses fudo fynd rhagddi.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Cofion cynnes

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.